



*Bubo bubo* - Credaf mai yr *Eurasian Eagle Owl* yw hwn wedi ei dynnu am tua 07:30 bore 4 Mehefin 2013 with gerdded ger maes carafanau Wroxam yn y Broads. Syndod o'r mwyaf oedd gweld aderyn mor fawr - ond deall yn ddiweddarach mai aderyn dŏf ydoedd wedi hedfan o'i gartref lleol - am ychydig o awyr iach mae'n debyg.!! Cyfeirnod Grid TM373173. Mewn rhes o goed yn gyfochrog ac yn union gyferbyn â'r safle carafanau y tu allan i bentref Ludham yn swydd Norfolk. Yn y prynhawn wedi holi warden yn safle Barton Broad (Norfolk Wildlife Trust) a darganfod ganddo fod yr aderyn lleol ar goll ers rhai dyddiau. [Dyma [ei chan](#). Gol.]

John Grisdale


**Cofiwch glicio'r geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth**



## Newid hinsawdd - Y DIWEDDARAF


Pwrpas Llên Natur yw cyhoeddi amrwiol ganfyddiadau ac argraffiadau gan bobl o'u byd. Mae hynny wrth gwrs yn cynnwys gwyddonwyr. Dyma ddetholion o'r wybodaeth global diweddaraf (gofidus!) gan y Goddard Institute for Space Studies NASA [GISS]. Ein bwriad o hyn ymlaen yw cyhoeddi rhain i chi heb sylwadau "gwleidyddol" gan hyderu y bydd y siartiau yn siarad drostynt eu hunain

Gyda diolch i'r Athro Gareth Wyn Jones




Tymheredd yr hydref wedi amneidio o'i gymharu a 10 mlynedd yn ol.

GHCNV3+ERSST TempLS V3 Nov anomalies base 1951-80, made 2016-12-18



Cymhariaeth Tachwedd 2016 gyda chyfartaledd 1951-80. Cymru yn sefydlog, Siberia yn oerach, ond sylwch ar yr UD, yr Arctig a'r Antartig.



Y data hyn o wefan Tamino

The calendar year isn't complete yet, but the year-so-far average shows that it too will come in as hottest on record — for the third year in a row Benthycwyd y siartau hyn o wefan moyhu

## Arwyddion gwanwyn cynnar?



Dyma gyflwr cynffonnau wyn bach ar un goeden mewn lle cysgodol yn ardal Pénisarwaun 18 Rhagfyr 2016. Roedd y goeden hon yn eithriadol, y gweddill yn yr ardal yn debycach i'r rhai hyn ym mis Hydref.

Dyma gofnod arall o fis Rhagfyr 1924:

*The hazel often blooms in December, and not only the*

*pollen-covered lambstails, but even the tiny red tufts of the female flowers begin to show themselves with the new year?*

Angela Brazil (Llandudno, Colwyn Bay and District Field Club

Proceedings 1923-24)

A dyma Twm Elias: "Newydd ddwad nol o Gaernarfon bora 'ma [31 Rhagfyr 2016] a sylwi bod amryw o goed helyg yn dechra blaguro ar ymyl y ffordd newydd rhwng Penygroes a Dinas (blagur gwynion) a bod cynffona wŷn bach wedi agor yn llawn ger Pont Seiont ar gwr C'fon a hefyd ger rowndabowt Groeslon. Cynnar 'de?"

## Y Ddyfrdwy dan rew



Llun ar wal y Coffee Mill yng Nghaer. Mae'r capsion "The Frozen Dee Feb. 7, 1917" i'w weld yn aneglur ar waelod yr ochr chwith. Gellir gweld ambell sglefriwr yn ei lifrau milwrol ym mlwyddyn cynderfynnol y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma gofnod arall hudolus o'r un diwrnod o'r Tywyddiadur gan y bardd Siegfried Sassoon:

*7 February 1917 Weirleigh, Kent: A bright fire burning, Topper licking his paws in an armchair, two candles alight, friendly books all round me on the shelves, and blue moon-light filtering through the white curtains from the dazzling white snow and clear stars outside, while the wind makes a little crooning in the chimneys, And the hall clock strikes ten.... I'm afraid she [my poor old Mother] don't realise I am for France this month.*

Siegfried Sassoon

## CYWIRIAD PWYSIG

Mae'r ffwng *Clathrus ruber* (llun tud. 7) wedi ei gamenwi yn y gyfrol ffyngau, tudalen 27. Newidiwch "tentaclau cochion" i CAWELL COCH os gwelwch yn dda

*Clathrus ruber*

red cage

tentaclau cochion

## Brych gyddfddu



**Bronfraith yddfddu**, Llanelwy, Rhagfyr 22. Llun difrifol o wael, ymddiheuriadau, ond roedd yn chwarter i bedwar ac roedd yr aderyn tua 50 metr i ffwrdd. Dim mond yr ail bronfraith yddfddu sydd wedi cyrraedd Cymru. Llun arall [yma](#)


Dyma ychydig o wybodaeth amdano o Wikipedia:

*The breeding range of the black-throated thrush extends from the extreme east of Europe to Western Siberia and north-west Mongolia. The wintering range extends from the Middle East, although uncommon in the Arabian Peninsula to eastern Burma*

Alun Williams

## Ffenoleg y gwyfyn gwinau

### NIFER O WYFYNOD GWINAU YN NHRAPIAU DB (Waunfawr & Abergwyngregyn) 1996-2016




Gwyfyn sydd yn rhychwantu'r gaeaf fel oedolyn ydi'r gwyfyn gwinau cyffredin *Conistra vaccini*, y cnwd yn deor ym mis Hydref, yn gaeaf-gysgu gan fwyaf cyn deffro a chyrraedd penllanw arall yn y mis bach. A bwrw mai cnwd y flwyddyn yw'r rhai Medi-Rhagfyr (281), a'r rhai ohonynt sy'n deffro yw cnwd Ionawr-Ebrill (239), mae'r ystadegau hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o golledion a geir ar gyfartaledd dros y gaeaf.

Duncan Brown

Mwy am gylch bywyd y gwyfyn hwn [yma](#)

## Bras yr eira

**bras yr eira**, Llandudno, Rhagfyr 29, 2016 Alun Williams  
On November 1st, 1928, [SF] witnessed the arrival, at Point of Ayr, Flintshire, of about forty [snow buntings] together; there was a strong east wind blowing. Some of these birds remained in the neighbourhood until the end of January, 1929. British Birds Ebrill 1929  
Dyma [ei gan](#) yn ei ardal nythu



## Penwaig Mair, Cernyw



Llun: Alan Hampson (gynt o Lithfaen a Waunfawr)

Mae hyn yn dilyn sawl adroddiad yn y Guardian, hwn ar **17 Rhagfyr 2016** fel a ganlyn:

*"The shingle of one of the most picturesque beaches in Cornwall, Marazion at St Michael's Mount, was covered in hundreds of thousands of dead fish [sardinau neu penwaig Mair] at the weekend, the second time this month there has been a mass beaching of fish".*

Dywedwyd bod y penwaig Mair wedi heigio'n agosach i lannau Cernyw nag arfer eleni. Cafwyd esboniad **dau ddiwrnod wedyn** mai cwch pysgota oedd wedi dal gormod ac wedi eu gollwng yn ôl i'r môr yn farw.



*Just been down to Marazion/Longrock [19 Rhagfyr 2016]. Thousands of seabirds in a Christmas feast feeding frenzy...*

Alan Hampson

## Hanes llafar

**Fideo** o ddau frawd o ffarmwr o ardal Cydweli yn mynd i hwyl



## Esgidiau Gelli Iago



Dri chan mlynedd a mwy yn ôl, pan oedd un o'r tai hynaf sydd wedi goroesi ym mhentref Nant Gwynant, Eryri yn cael ei adeiladu, daeth teithiwr o'r enw Iago

heibio a gofyn i un o'r gweithwyr: "Os af yn fy mlaen i fyny'r grib, trwy Fwlch y Saethau a Bwlch Batal fedrai ddod i olwg mynydd y Cnicht, ac yn y pen draw, bentref Croesor?" Atebodd y gweithiwr: "Gelli Iago". Yn ol y son, dyna sut gafodd y tŷ – Gelli Iago - ei enw. Cwbl anghredadwy, ond dyna oedd y stori fyddai fy nhad yn ei hadrodd pan oeddem yn byw yno fel teulu ym mhymdegau y ganrif ddiwethaf; nid yn yr hen dŷ gwreiddiol, sydd bellach yn adfail, ond yn y tŷ cymharol newydd.

Rhyfeddach na'r stori am darddiad yr enw ydi'r darganfyddiad a wnaed yn 2010 pan oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwneud gwaith atgyweirio arno, mewn ymdrech i gadw'r waliau a'r simdda fawr ar eu traed o leiaf. Canfuwyd cant o esgidiau sengl o oes Fictoria, wedi eu claddu o dan garreg yr aelwyd. Dirgelwch llwyr. Pam fyddai rhywun yn gwneud y ffasiwn beth? Yn y pumdegau, pan oeddwn blentyn, roedd yr hen dŷ yn 'weithredol'. Roedd arno do, a chedwid ieir ynddo; hefyd, ar ddiwrnod cneifio yno yn y llofft y cedwid y cnuoedd gwlan, nes i'r lori o Borthmadog ddod yno i'w cludo ymaith. Mae Gelli Iago – yr hen dy a'r newydd - yn swatio "yng nghesail y moelydd unig" fel petai. Gyferbyn, saif hen chwarel oedd wedi bod ar gau ers o leiaf ganrif pan gyrhaeddodd fy nhad a fy mam i fyw yno o Gwm Croesor. Ond ar un adeg, pan oedd y chwarel yn ei hanterth bodolai cymuned o oddeutu dau gant o eneidiau yn y cyffiniau. Ai aelodau o'r gymuned honno oedd yn gyfrifol am gladdu yr esgidiau?

Roedd pobl y cyfnod yn hynod o ofergoelus, felly a roddwyd yr esgidiau i'w cadw er mwyn wardio rhag ysbrydion drwg? Mae'n arferiad hynafol, oedd yn gyffredin mewn sawl ardal. Ond mae i bob esgid ei phartneras, felly pam esgidiau sengl? Un ddamcaniaeth ydi fod y llall yn cael ei gosod mewn rhywle ar wahan, mewn afon neu lyn, ac o'r herwydd yn anhebygol o ddod i'r fei mor rhywydd. Darganfuwyd cant o esgidiau. Ai un person oedd yn gyfrifol am eu claddu i gyd? Sgersli. Mae'n awgrymu i mi fod sawl person yn gyfrifol – hynny ydi, fod hen dy Gelli Iago yn gylchfaen, y 'lle' i ddod a'ch esgid, a'i throsglwyddo i'r sawl oedd yn berchen y ty. Person cyfrin hwyrach, 'ghostbuster' ei gyfnod? Pwy a wyr beth yw'r ateb. Ond mae dychymyg pawb yn dren ddyliwn.

Meic Povey

Mae yna drafodaeth pellach yma am y busnes sgidia ar waelod y [Country Diary yma](#) yn y Guardian 16 Rhagfyr 2016 (sylwadau Llwyfen1 a CathyRose)

## Storm fawr Ionawr 1953

Bu storm dwyrain Lloegr 13 Ionawr 2017 yn adlais diweddar o [storm 31 Ionawr 1953](#). Mwy yn y [Tywyddadur](#)

## Cawell gwichiaid moch



Dangosodd gyfaill Branwen Leisa y pot neu'r cawell hwn i mi yn ddiweddar. Fe'i cafodd hi ar draeth yn sir Fon. Mae'r fynedfa iddi yn un fechan iawn (2" ar y mwyaf) a doedd yr un ohonon ni yn gwybod yn iawn beth oedd y "pysgodyn darged". Dwi'n dyfalu mai cawell dal gwichiaid moch (*dog wheelks*)

ydio gan i mi ddarllen yn rhywle yn ddiweddar am bysgodfa o'r fath gyda darnau o benfras yn cael eu rhoi fel abwyd iddynt. Ydwi'n iawn tybed? **Gol**

Meddai Sion Roberts: "Mae'r gawell hon yn gallu targedu sawl rhywogaeth... Mae'r fynedfa yn fach fel y sylwaist... ond hawdd yw eu wneud ychydig yn fwy, mae'r gawell wedi'w gwneud mewn ffordd i hwyluso hyn. Fel y mae hi yn y darlun fe ddefnyddir i ddal cregyn moch, [Buccinum undatum](#) (*edible whelk*), fel y dyfalaist, ond hefyd mae yn gallu dal corgimychiaid (prawns). Gwna'r twll ychydig yn fwy (tynnur darn solat du) ac fe ddefnyddir i ddal crancod llygatgoch (*fiddler crab*) ac i ddal cimychiaid Norwy (*langoustine*)".

## Peli môr...eto



[Ydych chi'n cofio'r] peli o ffeibr wedi eu casglu ymysg broc môr [Bwletin 77 tudalen 4?](#) Wele yma beli gasglwyd gan fy chwaer yn ne ddwyrain Ibitha. Mae llwythi yno. Mae gen i un i rywun ei astudio os posib.

Math Williams

Esboniad llawn [yma](#)


## Grugieir yn dychwelyd i Gefn Du?

Gair byr i gadarnhau'r hyn sydd yn [Llên Natur \[Ion 2017, t.1\]](#). Mi fum ar [Gefn Du](#) [Waunfawr] bore heddiw [3 Ionawr 2017] - a chodi dwy [rugiar](#); y tro cyntaf ers blynyddoedd i mi weld rhai yma. Roeddent yn agos iawn i'r ardal y byddwn yn arfer eu gweld. Yn ol i'w hen gynefin tybed?

Dafydd W. Thomas

Cofiwch does dim rhaid GWELD grugiar i wybod ei bod hi yno. Mae'r [baw](#) yn ddigon.

## Adroddiad o bapur newydd Seland Newydd, 1912



"....mewn ychydig ganrifoedd"?! O leiaf bydd neb yn gallu dweud na chawsom ein rhybuddio!

## Ewyn Trwyn Ffynnon y Sais




Yr **ewyn yn dew** ar greigiau Trwyn Ffynnon Sais, Llanddwyn Gwyl San Steffan, 2016

Einir Thomas

Yn dilyn stormydd Barbara a Connor! Meddai **Sion Roberts**: "Mae'r gwynt a'r tonnau yn malu'r celloedd, ac yn eu chwipio i greu'r ewyn, fel y mae gwynnwy yn cael eu chwipio i ewyn, gyda fforc. Alga ungellog o'r enw *Phaeocystis* sydd yn eu hachosi gan amlaf."

## Grisiau haearn newydd




Grisiau haearn lawr i draeth pella Trefor. Dim y petha dela ond dim modd cael lawr i'r treth heb y rhain gymaint yw'r erydu.

Olwen Evans


## Cofnodion glaw Pelcomb, Hwlfordd

Dyma ddwy siart yn ymwneud â glawiad 2016.



Sylwer bod graddfa echel-y yn y graff uchod yn cychwyn ar 800mm er mwyn pwysleisio'r gwahaniaeth blyneddol.

Cyfanswm o 1137mm. Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd y ganrif hon o 1190.5mm [llinell oren].



John Lloyd Jones

Gorffennaf oedd y mis sychaf y llynedd a lonawr y gwlypaf. Yr ail sychaf oedd Hydref - cofiwn yr Haf bach Mihangel yn dod i ben:

Waunfawr, 21 Hydref 2016: Y tywydd wedi troi a'r haf bach Mihangel wedi dod i ben. Niwl ar Cefn Du, llwydni a thamprwydd, gyda therfysg pell tua 9.15.

DB

## Graffiau cymharol o Waunfawr mis nesaf

## Cymru'n helpu'r Inuit i achub eu hiaith



Cafodd Inuit Canada fesur o ymreolaeth yn ddiweddar ar ran o'r Northern Territories. At Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, y daethant i atgyfnerthu eu hiaith. Mwy yma

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.com](mailto:llennatur@yahoo.com).





Tynnais y llun o gaer Pen y Cloddiau, Dyffryn Clwyd.

Alun Williams

Gwymon bwytadwy... ar blat - 3ydd a'r olaf rhan

Enwau Cymraeg, Saesneg a Lladin	Enw Gaeleg (ei ystyr neu darddiad)	Nodiadau diwyllianol
Sea-oak <a href="#">Fucus vesiculosus</a>	Raineach Mhara ('sea bracken')	<i>Branched fronds with pod-shaped air bladders. Not used much by the Gaels.</i>
Sea Lettuce <a href="#">Ulva lactuca</a>	Glasag ('little green one')	<i>Full of vitamins, and eaten in soups or salads. [Peryglus wrth bydru ar y traeth? Stori.]</i>
Sea-thong <a href="#">Himanthalia elongata</a>	Iallan Mara 'sea thongs'	<i>Traditionally prized by the Gaels for the young plants, shiny saucers that are very tasty. In Gaelic these are called imleagan or 'belly buttons'.</i>
Seaweed Laces <a href="#">Chorda filum</a>	Gille-mu-Lunn ('lad around the middle part of the oar')	<i>Edible but not favoured by the Gaels. Annoying to oarsmen because of its habit of wrapping around the middle of an oar.</i>
Serrated Wrack <a href="#">Fucus serratus</a>	Slaodach Possibly 'the one floated and pulled to shore'	<i>Recognised by the toothed margins on its fronds. An excellent fertilizer but its sour taste prevents its being consumed by humans.</i>
Iafwr, llafan, slafan Sloke, Laver <a href="#">Porphyra umbilicalis</a>	Slòcan Perhaps from Scots or English 'sloke'	<i>A fine, thin seaweed that can cover rocks thickly, appearing like a brown to purple film. Very nutritious and widely eaten.</i>
Spiral Wrack <a href="#">Fucus spiralis</a>	Feamainn Sniomhach 'twisted wrack'	<i>Grows below the channelled wrack. Useful as a fertilizer.</i>
Sweet kelp <a href="#">Saccharina latissima</a>	Langadal, Ròc Unknown, probably Norse	<i>Found beyond the littoral but often newly cast up after a storm. Sweet flavour and eaten widely.</i>

Diolch i Ruairidh McClean am rannu'r wybodaeth hon am wymon.

## Milgi brych...



Ai cen yw'r brithni gwyn ar y milgi? (Llun gan Olivier Morvan, o Landerne, Llydaw). Byddai'n dda ail dynnu'r llun yn y dyfodol i fesur

twf neu drai y cen (fel sydd yma). Tybiaf mai rhan o kalvar un o'r eglwysi sydd wedi eu cysegru i Sant Teilo ydyw? Efallai y gall Olivier gadarnhau (*Je vous prie de confirmer l'église, Olivier*)


## Sewin "cyntaf" Llyn Mwyngil, Talyllyn

7 Awst 1882: *I caught a very nice Sea trout, the first time I have ever captured one in Talyllyn, but there are a good many in the Lake now, as well as salmon – owing no doubt to the late heavy rains. We left about 6; and got home in time for tea dinner at eight. Talyllyn. Trout 10 Sea trout 1. (1lb 1oz)*

Dyddiadur Hela CEM Edwards

Roedd Munro Edwards yn bysgotwr profiadol ac yn dal sewinod yn rheolaidd yn afonydd ardal Dolgellau o'r 1860au ymlaen. Diddorol felly yw'r sylw yma ganddo o ddal sewin am y tro cyntaf yn Llyn Mwyngil yn 1882 (ac erioed wedyn gyda llaw hyd y gwelwn hyd yma).

Nifer o sewin/sesiwn bysgota ar Lyn Mwyngil (Talyllyn) 1989-2004



Dengys y graff uchod y nifer o sewin a ddaliwyd yn llawer diweddarach yn ol tystiolaeth llyfrau pysgota Tyn y gornel, Talyllyn.

## Cawell coch



Here are two photographs I took on November 29th 2013 as I was walking along the river in Landerneau [Llydaw]. I thought it was my cycling helmet in reduced size, but it proved to be a mushroom (the name of which I have forgotten now).

Gérard Gueguen

CYWIRIAD PWYSIG: ewch i waelod tudalen 2 am fwy

## Terfysg eira Ionawr

By cryn son am *thunder-snow* yn ystod y mis a aeth heibio. Dyma ddau ddisgrifiad o'r Tywyddiadur.

## Palmwydd bresychaidd



Eira Llandudno 2010

Tynnwyd o lethrau Rhiwledyn gan edrych i gyfeiriad Bae Llandudno a'r Gogarth Fawr, ddeuddydd cyn y Nadolig [2010].

Gareth Pritchard

Goresoddi y coed palmwydd y tro yma. Tybed ydi'r 'balmwydden' a'i ledaeniad trwy erddi Cymru yn arwydd o Newid Hinsawdd (yn teu gwyliau tramor, yn teu'r ddau?)

Dyma nodyn am sgwrs ffôn gyda Kevin Hobbs, cyngorydd garddio cwmni Hilliers: *Cabbage palm* yw'r unig enw Saesneg arno erioed

Dosbarthiad *Cordeline australis* yn y gwyllt o bobtu'r Mor Celtaidd yn ol Atlas Flora BSBI

(Torbay Palm hefyd); neb yn ei dyfu o had (ond MAE hi'n hadu - gweler yma); allan o ffashiwn braidd heddiw (fel gwair pampas, 'twee'); gwerthiant wedi gostwng ar ol gaeaf 2010; wedi ei effeithio gan 'bacterial leaf spot' ond hwnnw wedi ei ddatrus erbyn hyn; 'Bird sown'.

*Introduced into cultivation in Britain in 1823, and is increasingly popular in gardens in suitable areas. It was recorded from the wild in 1965 (W. Cornwall) and appears to be increasing. Native of New Zealand.*

T. D. DINES

## Olew cors, enfys marw....



Llun: Dominig Kervegant

Mae pawb sy'n byw yng nghefn gwlad yn gyfarwydd a'r pyllau bach gyda ffilm liw petrol ar yr wyneb lle mae'r ffwng penfelyn y gors yn aml yn tyfu. Mae mor gyffredin, siawns bod pobl wedi rhoi enw(au) arno rhyw-bryd, rhyw-dro, rhyw-le? Olew cors meddai Steffan o Blaenau, enfys marw meddai Gill o Waunfawr. Cynigion eraill os gwelwch yn dda.





Atebion i gyrraedd [golygyddol@gwaithmaes.org](mailto:golygyddol@gwaithmaes.org) erbyn 28ain o Chwefror 2017. Mae gwobr o £10 i'r enillydd.

## LLIFOGYDD YNG NGHYMRU

Mae llifogydd yn digwydd pan mae afon yn gorlifo gan achosi dŵr yr afon i lifo dros y gorlifdir. Mae llifogydd yn dueddol o gael eu hachosi gan law trwm: po gyflymach y mae'r dŵr glaw yn cyrraedd sianel yr afon, y mwyaf tebygol yw hi y bydd llifogydd yn digwydd. Mae natur y dirwedd o gwmpas yr afon yn dylanwadu ar ba mor gyflym y mae'r dŵr glaw yn cyrraedd y sianel.

Mae nifer o lefydd yng Nghymru wedi dioddef effeithiau llifogydd, dyma ychydig o luniau i ddangos yr effaith y gall llifogydd ei gael ar ein tirwedd.



Y Bont Fawr, Dolgellau ar ôl llifogydd 1903



Afon Elwy ym Mharc Llanellwy, Rhagfyr 26 2012, llun gan Alun Williams, Oriol Llên Natur



Afon Ogwen ym Mhont Tŵr, Bethesda Rhagfyr 26 2012, llun gan Phill a Janet Buckles, Oriol Llên Natur



Ffordd Rhuthun, Wrecsam, 15.5.13

### Tasg:

Mae'n hollbwysig i bobl mewn ardaloedd lle mae yna berygl llifogydd fod yn barod ar gyfer llifogydd. Awgrymir iddynt baratoi pecyn argyfwng llifogydd y gallent fynd hefo nhw pan mae rhybudd o lifogydd. Sut y gallwch chi eich paratoi eich hunain a'ch cartrefi ar gyfer llifogydd? Enwch 5 eitem y byddech yn eu cynnwys mewn pecyn argyfwng llifogydd, a pham.